RHAN 2 – ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

Erthygl 2 – Aelodau'r Cyngor

2.1 **Cynnwys**

Bydd i'r Awdurdod 75 o Gynghorwyr (a elwir fel arall yn Aelodau). Caiff un neu fwy o Gynghorwyr eu hethol gan etholwyr pob Adran Etholiadol yn unol â chynllun a luniwyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a'i gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.2 **Ethol a chyfnodau Cynghorwyr**

Cynhelir etholiad rheolaidd Cynghorwyr ar ddydd Iau cyntaf mis Mai bob pedair blynedd neu ar unrhyw adeg arall o'r fath a gaiff ei bennu gan y gyfraith. Bydd cyfnodau Cynghorwyr yn eu swyddi yn dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ôl cael eu hethol a byddant yn gorffen ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad rheolaidd nesaf.

2.3 **Rolau a swyddogaethau pob Cynghorydd**

(a) Rolau allweddol

Bydd Cynghorwyr yn:

(i) pennu'r Fframwaith Polisi ar y cyd a chyflawni nifer o swyddogaethau strategol;

(ii) cynrychioli eu cymunedau a dod â'u barn i broses benderfynu'r Awdurdod, h.y dod yn lladmerydd dros ac ar ran eu cymunedau;

(iii) ymdrin â gwaith achos unigol a gweithio fel lladmerydd ar gyfer etholwyr wrth ddatrys pryderon neu gwynion penodol;

(iv) ceisio cydbwyso buddiannau a nodwyd o fewn y ward a chynrychioli'r ward yn ei chyfanrwydd;

(v) cyfrannu at wella gwasanaethau cyngor yn barhaus trwy Raglen Gwella Cymru;

(vi) bod yn rhan o'r broses benderfynu;

(vii) bod ar gael i gynrychioli'r Awdurdod ar gyrff eraill; a

(viii) cadw'r safonau uchaf o ran ymddygiad a moeseg.

(b) Hawliau a Dyletswyddau

(i) Bydd gan Gynghorwyr hawliau mynediad at y dogfennau, y wybodaeth, tir ac adeiladau'r Cyngor sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu swyddogaethau'n briodol ac yn unol â'r gyfraith a'r Cyfansoddiad hwn;

(ii) Caiff cynghorwyr ymweld ag unrhyw dir neu adeilad o eiddo'r Awdurdod yn amodol ar y canlynol:

- mae'n rhaid iddynt ddweud pwy ydynt yn briodol i'r person sy'n rheoli adeilad ac ni chânt roi cyfarwyddiadau i gyflogeion;
- na chyfweld ag unrhyw gyflogai heblaw am Gyfarwyddwr Corfforaethol neu Brif Swyddog neu unrhyw uwch swyddog a enwebir at y diben hwnnw ar faterion o bolisi neu egwyddor, neu unrhyw fater sydd naill ai'n cael ei ystyried gan y Cyngor neu'r Cabinet neu'n debygol o fod gerbron y Cyngor neu'r Cabinet neu unrhyw un o'i Bwyllgorau;
- rhaid i ymweliadau â sefydliadau preswyl ystyried preifatrwydd a diogelwch preswylwyr ac felly cânt eu cynnal ar ôl dilyn rhybudd priodol i'r Prif Swyddog priodol neu ei (h)enwebai ac wedyn caiff yr ymweliad ei wneud yn unol â'r trefniadau a nodwyd.

(iii) Ni fydd cynghorwyr yn gwneud gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig yn gyhoeddus heb gydsyniad yr Awdurdod, neu ddatgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol i unrhyw un heblaw am Gynghorydd, swyddog neu berson arall sydd â hawl gyfreithiol i wybod.

2.4 Ymddygiad

Bydd cynghorwyr a chyflogeion yn cadw at eu Cod Ymarfer a'u Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion a restrir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn bob amser.

Ar ôl iddynt gael eu hethol, bydd pob Cynghorydd yn rhoi Ymrwymiad Caerdydd er mwyn dangos eu hymrwymiad yn gyhoeddus ar y cyd â'r holl Gynghorwyr eraill i gynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad ac i wasanaethu buddiannau'r Cyngor, Caerdydd, ei dinasyddion a'r rheiny y mae ar y Cyngor ddyletswydd iddynt.

Bydd rhoi Ymrwymiad Caerdydd yn digwydd yn:

(a) y cyfarfod blynyddol ar ôl yr etholiad arferol neu

(b) os na fydd y Cynghorydd yn mynychu'r cyfarfod blynyddol hwnnw yna yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor wedi hynny y bydd y Cynghorydd yn ei fynychu neu

(c) pan gaiff y Cynghorydd ei ethol mewn is-etholiad, cyfarfod cyntaf y Cyngor y mae'r Cynghorydd yn ei fynychu ar ôl yr is-etholiad.

2.5 Lwfansau

Bydd hawl gan Gynghorwyr i dderbyn lwfansau yn unol â Chynllun Lwfansau Aelodau, fel y rhestrir yn Rhan 6 y Cyfansoddiad hwn.